

Wylfa Newydd

Adroddiad ar yr Effaith Leol

Pennod 11: Gwastraff

Rhagfyr 2018

Cyf PINS: EN010007

Mae'r dudalen hon wedi'i gadael yn wag yn fwriadol

1.0 Gwastraff

1.1 Cyd-destun

1.1.1 Bydd datblygiad Wylfa Newydd yn creu angen i reoli gwastraff newydd ar ffurf Gwastraff Solet Trefol (GST), gwastraff Masnachol a Diwydiannol (MaD) a gwastraff Adeiladu a Dymchwel (AaD). Mae Horizon wedi cyhoeddi'r trefniadau arfaethedig i reoli'r gwastraffau hyn yn eu cais DCO. Mae'r dogfennau canlynol yn amlinellu'r dull arfaethedig:

- a) 6.2.16 Cyfrol B - Cyflwyniad i'r asesiadau amgylcheddol B16 - Rheoli gwastraff a defnyddiau¹;
- b) 6.3.6 ES Cyfrol C - Effeithiau ar y prosiect cyfan C6 - Effeithiau ar y prosiect cyfan – Rheoli gwastraff a defnyddiau²; a
- c) 6.3.30 ES Cyfrol C - Effeithiau ar y prosiect cyfan Atodiad - C6-1 - Cyfleusterau rheoli gwastraff lleol a rhanbarthol³.

1.1.2 Mae materion sy'n ymwneud â gwastraff yn bwysig i CSYM, sef yr awdurdod cynllunio gwastraff a'r awdurdod casglu a gwaredu gwastraff. I gyflawni eu cyfrifoldeb statudol i waredu gwastraff, mae CSYM yn aelod partner o Bartneriaeth Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru (PTGGGC), sydd wedi caffael datrysiaid tymor hir ar gyfer trin gwastraff trefol gweddilliol ym Mharc Adfer. Bydd gan bob awdurdod lleol partner ei drefniadau ei hun ar gyfer derbyn a chludo gwastraff er mwyn trosglwyddo gwastraff gweddilliol i'r cyfleuster newydd ym Mharc Adfer.

1.1.3 O ran cynllunio gofodol, mae gan CSYM ymrwymiad i ystyried anghenion rheoli gwastraff tymor hir yn eu polisïau cynllunio perthnasol.

1.1.4 Yn eu swyddogaeth cynllunio gwastraff a hefyd wrth wneud yr ymateb cynllunio strategol i gynigion Horizon, mae CSYM yn awyddus i sicrhau dealltwriaeth o faterion rheoli gwastraff ac y darperir mesurau lliniaru i sicrhau na roddir pwysau net ychwanegol ar yr awdurdodau gwastraff o ganlyniad i adeiladu a gweithredu Wylfa Newydd.

1.2 Cynigion y Prosiect – Safbwynt Horizon

1.2.1 Mae asesiadau Horizon ar gyfer rheoli gwastraff a defnyddiau'n ystyried effeithiau posibl gwaredu gwastraff oddi ar y safle ac ailgylchu / compostio oddi ar y safle yn ystod tri chyfnod y prosiect h.y. adeiladu, gweithredu a datgomisïynu.

¹ Llyfrgell Archwilio cyfeirnod APP-[081]

² Llyfrgell Archwilio cyfeirnod APP-[093]

³ Llyfrgell Archwilio cyfeirnod APP-[117]

1.2.2 Dyma safbwynt cyffredinol Horizon:

Gwaredu Oddi Ar y Safle

1.2.3 Bydd y datblygiad arfaethedig yn cynhyrchu'r symiau canlynol o ddefnydd gwastraff diberygl a pheryglus y bydd angen ei waredu oddi ar y safle:

- a) Cyfnod adeiladu – gwaredu oddi ar y safle cyfanswm o 9 830 m³ o wastraff diberygl a 16 500 m³ o wastraff peryglus.
- b) Cyfnod gweithredol – gwaredu oddi ar y safle cyfanswm blynyddol o 25 m³ o wastraff diberygl a 385 m³ o wastraff peryglus.
- c) Cyfnod datgomisiynu - 1 320 m³ o wastraff diberygl a 2 355 m³ o wastraff peryglus mewn cysylltiad â'r datblygiadau cysylltiedig; a 1 737 000 tonnell (2 631 820 m³ gan ddefnyddio'r gyfradd drawsnewid a sefydlwyd o 0.66t/m³) o wastraff diberygl a 300 tonnell o wastraff peryglus (455 m³ gan ddefnyddio'r gyfradd drawsnewid a sefydlwyd o 0.66t/m³) mewn cysylltiad â'r Orsaf Bŵer.

1.2.4 Tybir, yn yr achos gwaethaf, y bydd angen safle tirlenwi ar gyfer y defnyddiau y mae angen eu gwaredu oddi ar y safle. Gyda hyn mewn golwg, mae Horizon yn asesu'r cynhwysedd tirlenwi a ganiateir yng Ngogledd Orllewin Lloegr (lle gwag ar gyfer gwastraff peryglus a diberygl). Manylir hyn fel a ganlyn:

- a) 39 335 000 m³ o gynhwysedd tirlenwi diberygl (paragraff 6.3.11 dogfen C6); a
- b) 6 481 000 m³ o gynhwysedd tirlenwi peryglus masnachwyr (paragraff 6.3.11 dogfen C6).

1.2.5 Safbwynt Horizon ynglŷn â gwaredu oddi ar y safle yw, ac eithrio'r gwastraff a gynhyrchir wrth ddatgomisiynu'r brif Orsaf Bŵer, bod yr holl wastraff y rhagfynegir y caiff ei gynhyrchu yn ystod y cyfnodau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu yn llai nag 1% o'r cynhwysedd tirlenwi i wastraff diberygl a pheryglus yng Ngogledd Orllewin Lloegr. Felly, er bod y sensitifrwydd yn uchel (oherwydd tirlenwi), mae maint y newid yn fach iawn (llai nag 1% o'r cynhwysedd), felly ystyrir bod yr effaith gyffredinol ar y cyfleusterau rheoli gwastraff sy'n derbyn y gwastraff yn effaith fach.

Ailgylchu a Chompostio Oddi Ar y Safle

1.2.6 Yn eu dogfennau, mae Horizon yn tybio y bydd y datblygiad arfaethedig yn cynhyrchu'r symiau canlynol o ddefnydd y bydd angen ei ailgylchu a'i gompostio oddi ar y safle:

- a) Cyfnod adeiladu – 6 700 tonnell o wastraff gwyrdd; 2 620 tonnell o wastraff bwyd; a 49 140 tonnell o wastraff i'w ailgylchu.
- b) Cyfnod gweithredol – 170 tonnell o wastraff bwyd*; a 660 tonnell o wastraff i'w ailgylchu.
- c) Cyfnod datgomisiynu – 133 785 tonnell +27 045 tonnell o wastraff i'w ailgylchu mewn cysylltiad â'r datblygiadau cysylltiedig; a 1 737 000 tonnell o wastraff diberygl a 300 tonnell o wastraff peryglus mewn cysylltiad â'r Orsaf Bŵer.

1.2.7 Tybir, lle bo angen aildefnyddio / ailgylchu defnyddiau oddi ar y safle, y gwneir hynny o fewn dalgylch Gogledd Cymru. Gyda hyn mewn golwg, mae Horizon yn asesu'r

cynhwysedd aildddefnyddio / ailgylchu / compostio a ganiateir ar gyfer gwastraff diberygl yng Ngogledd Cymru. Manylir hyn fel a ganlyn:

- a) Cyfleusterau compostio – cynhwysedd 168 996 tonnau y flwyddyn yng Ngogledd Cymru (paragraff 6.5.30 dogfen C6⁴);
- b) Cyfleusterau treulio anaerobig – cynhwysedd 86 499 tonnau y flwyddyn yng Ngogledd Cymru (paragraff 6.5.34 dogfen C6);
- c) Cynhwysedd 374 999 tonnau y flwyddyn ar gyfer aildddefnyddio ac ailgylchu yng Ngogledd Cymru (paragraff 6.5.39 dogfen C6).

1.2.8 Safbwynt Horizon ynglŷn ag ailgylchu a chompostio oddi ar y safle yw, ac eithrio'r gwastraff a gynhyrchir wrth ddatgomiynu'r brif Orsaf Bŵer⁵, bod yr holl wastraff y rhagfynegir y caiff ei gynhyrchu yn y cyfnodau adeiladu, gweithredu a datgomiynu'n ganran digon bach o gyfanswm y cynhwysedd sydd ar gael i ystyried bod maint y newid yn fach (neu y gellir ei wneud yn fach drwy waredu defnydd dros gyfnod estynedig, fel sy'n digwydd i'r defnydd a gynhyrchir yn ystod y cyfnod adeiladu). Mae hyn, ynghyd â'r ffaith bod sensitifrwydd rheoli'r gwastraff hwn yn isel (oherwydd aildddefnyddio / ailgylchu / compostio), yn golygu yr ystyrir bod yr effaith gyffredinol ar y cyfleusterau rheoli gwastraff sy'n ei dderbyn yn fach ym mhob achos o ran aildddefnyddio ac ailgylchu oddi ar y safle a threulio anaerobig a chompostio oddi ar y safle.

Effeithiau a Sail Dystiolaeth

1.2.9 Bydd Wylfa Newydd yn creu budd i economi'r ynys. Gallai gwastraff fod yn werthfawr i'r economi o ran buddion i'w chadwyni cyflenwi, buddion cost yn gysylltiedig â chynhyrchu llai yn ogystal ag ailgylchu ac aildddefnyddio cynhyrchion.

1.2.10 Mae defnyddio defnyddiau wedi'u hailgylchu'n gallu golygu defnyddio llai o ddefnydd newydd sy'n helpu i reoli risgiau cyflenwi, lleihau anwadlwydd prisiau a gwella cynaliadwyedd. Fodd bynnag, er mwyn i'r ynys a Gogledd Cymru deimlo'r effeithiau cadarnhaol hyn, bydd angen i gyfleusterau ailgylchu ac aildddefnyddio lleol allu diwallu anghenion Wylfa Newydd.

1.2.11 Er bod Horizon wedi nodi bod yr effeithiau'n niwtral / dibwys ar yr holl seilwaith rheoli gwastraff, ni all CSYM gytuno â'r casgliadau hyn; maent yn anghytuno â chadernid yr asesiad, ac yn benodol, â maint yr ardal astudiaeth a fabwysiadwyd – gweler yr adran 'Bylchau yn y Wybodaeth'.

Economaidd

1.2.12 Croesewir dull gweithredu sy'n seiliedig ar egwyddor y gosodiad priodol agosaf i gynorthwyo i roi'r hierarchaeth wastraff ar waith.

1.2.13 Er y cytunir y gallai cynhwysedd cyfleusterau rheoli gwastraff lleol fod yn brin, mae CSYM yn pryderu na ellir cyfiawnhau ymestyn ardal yr astudiaeth i ogledd-orllewin Lloegr. Ym marn CSYM, nid oes asesiad digonol wedi'i gynnal o botensial cyfleusterau lleol a'r cyfleoedd i leihau cludiant gwastraff dros bellter hir, ac mae'n

⁴ Llyfrgell Archwilio cyfeirnod APP-[093] a pharagraffau 6.5.34 a 6.5.39.

⁵ O ran datgomiynu prif safle'r Orsaf Bŵer, ni asesir effeithiau posibl y gwastraff a gynhyrchir ar seilwaith rheoli gwastraff yr ardaloedd lleol (gweler paragraff 16.1.5 dogfen B16 [APP-081] a pharagraff 6.5.81 dogfen C6 [APP-093]).

bosibl na fydd y prosiect yn bodloni darpariaethau'r polisi cenedlaethol presennol ar gyfer cynllunio gwastraff – ac yn benodol yr angen i waredu gwastraff mor lleol i'r ffynhonnell â phosibl. . Byddai dibynnu ar ardal ehangach sy'n cynnwys gogledd-orllewin Lloegr yn mynd yn groes i bolisiau Polisi Cynllunio Cymru, TAN21 a Chydgnllun Datblygu Lleol Gwynedd ac Ynys Môn.

1.2.14 Er enghraifft, mae ES Cyfrol C - Effeithiau'r prosiect cyfan C6 – Effeithiau'r prosiect cyfan – Rheoli gwastraff a defnyddiau⁶ paragraff 6.5.34 yn asesu bod maint y newid i'r cynhwysedd treulio anaerobig a chompostio caeedig yng Ngogledd Cymru yn 'fach' ac eto nid yw'n mynegi faint a ddefnyddir ar y cyfleusterau hyn ar hyn o bryd nac a yw ffigurau 2016 yn dal i fod yn berthnasol. Mae'r asesiadau o'r cynhwysedd ar gyfer aildefnyddio, ailgylchu a gwaredu oddi ar y safle'n debygol o fod yn ddiffygiol yn yr un modd, a gallai effeithiau negyddol ddigwydd drwy beidio â bodloni'r angen i reoli gwastraff mor lleol â phosibl at ei ffynhonnell. Mae CSYM wedi nodi nad yw'r asesiad yn rhoi sylw i gyfleusterau trosglwyddo. Mae'r cyfleusterau hyn yn cael effeithiau sylweddol ar nifer a phellter y symudiadau gwastraff, ac mae ganddynt hefyd y potensial i greu newid moddol. Nid yw'n ymddangos bod y bennod ES wedi ystyried y pryderon hyn ac nid ydynt ychwaith – er gwaethaf cyfeiriadau – wedi'u cyfiawnhau yn unman arall yng nghyflwyniad Horizon.

Priffyrdd a Thrafnidiaeth

1.2.15 Yn gysylltiedig â'r uchod, nid yw cyfleusterau rheoli lleol wedi'u hystyried yn drwyadl.

1.2.16 Mae CSYM o'r farn y ceir cyfleoedd mawr i leihau nifer a phellter y symudiadau gwastraff. Ni fu ymchwiliad i'r potensial i leihau symudiadau nac i gyflawni newid moddol.

1.3 Safbwynt Polisi

Cydgynllun Datblygu Lleol 2017

1.3.1 Mae maen prawf 1 Polisi PS 9 Wylfa Newydd a datblygiadau cysylltiedig, sef y Polisi cyffredinol ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd, yn disgwyl y bydd y cynnig yn bodloni unrhyw Bolisiau perthnasol yn y Cynllun ac unrhyw ganllawiau cynllunio atodol perthnasol.

1.3.2 Yn seiliedig ar y materion a godwyd ynglŷn â llif traffig diogel a rhydd ar briffyrdd, mae maen prawf 3 Polisi PS 9 hefyd yn arbennig o berthnasol gan ei fod yn gosod gofyniad i leihau effeithiau niweidiol ar drafnidiaeth i lefel dderbyniol yn ystod gwahanol gyfnodau oes yr orsaf bŵer.

1.3.3 Yn seiliedig ar faterion a godwyd isod ynglŷn â'r angen i fonitro'r datblygiadau sy'n gysylltiedig â Wylfa Newydd sy'n cynhyrchu GST a/neu wastraff masnachol a diwydiannol, ystyrir bod maen prawf 16 Polisi PS 9 hefyd yn arbennig o berthnasol gan ei fod yn gosod disgwyliad am fframwaith monitro cadarn i adolygu'r amrywiaeth lawn o effeithiau a digonoldeb mesurau lliniaru.

⁶ Llyfrgell Archwilio cyfeirnod APP-[093]

- 1.3.4 Mae'r canlynol yn rhestr o Bolisiau eraill yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r materion a godwyd uchod.
- 1.3.5 Mae Polisi Strategol PS 2: Isadeiledd a Chyfraniadau gan Ddatblygwyr yn nodi y bydd y Cynghorau'n disgwyl i ddatblygiadau newydd sicrhau bod darpariaeth ddigonol o isadeiledd (naill ai ar y safle neu i wasanaethu'r safle) sy'n angenrheidiol naill ai ar gael eisoes neu'n cael ei ddarparu yn amserol ar gyfer gwneud y cynnig yn dderbyniol.
- 1.3.6 Mae Polisi ISA 1: Darpariaeth Isadeiledd yn nodi y gellir ceisio cyfraniad i sicrhau cyfleusterau gwastraff ac ailgylchu os yw hynny'n angenrheidiol i wneud cynnig yn dderbyniol.
- 1.3.7 Mae Polisi TRA 4: Rheoli Effeithiau Cludiant yn nodi y dylid cynllunio a dylunio cynigion mewn ffordd sy'n hyrwyddo'r dulliau mwyaf cynaliadwy o deithio.

CCA Wylfa Newydd

- 1.3.8 Mae Amcan 7 yn cyfeirio at sicrhau rheolaeth gynaliadwy ar wastraff (yn unol â'r hierarchaeth gwastraff a strategaethau rheoli gwastraff sydd wedi'u gosod ar gyfer Ynys Môn), ac mae Adran 4.8 yn ystyried testun gwastraff yn fanylach. Mae'n nodi y dylai Prosiect Wylfa Newydd roi cymorth i gyflawni Tuag at Ddyfodol Diwastraff, y strategaeth wastraff gyffredinol i Gymru ac yn cydnabod bod angen sicrhau bod cyfleusterau ar waith sydd wedi'u lleoli a'u dylunio'n ddigonol ac yn briodol i reoli gwastraff sy'n codi o'r gwaith adeiladu a gweithredu.
- 1.3.9 Mae EA 17 yn nodi y dylai hyrwyddwr prosiect Wylfa Newydd (Horizon) sicrhau bod egwyddorion rheoli gwastraff cynaliadwy yn cael eu dilyn wrth adeiladu a gweithredu Prosiect Wylfa Newydd. Yn unol â gofynion cenedlaethol, mae'n galw am Gynllun Rheoli Gwastraff Safle ar gyfer pob safle er mwyn hyrwyddo rheoli cynaliadwy ar wastraff ac yn nodi y dylai hyrwyddwr y prosiect sicrhau bod unrhyw seilwaith sydd ei angen i reoli gwastraff yn cael ei ddarparu'n amserol ar gyfer adeiladu a gweithredu ar y prif safle a safleoedd datblygu cysylltiedig a pherthnasol yn unol â Chynllun Rheoli Gwastraff y Safle. Mae'r CCA hefyd yn galw am adolygiad optimeiddio casglu i ystyried unrhyw newid yn nosbarthiad y clystyrau poblogaeth a'r graddau y mae hyn yn rhoi pwysau ar y systemau casglu a gwaredu gwastraff.

1.4 Bylchau yn y Wybodaeth

- 1.4.1 Mae CSYM o'r farn bod asesiad Horizon o reoli gwastraff a defnyddiau'n cynnwys nifer o fylchau gwybodaeth y mae angen eu llenwi:

Rhagfynegi Gwastraff a Gynhyrchir yn y Dyfodol

- 1.4.2 Mae tablau C6-3; C6-4 a C6-6 dogfen C6⁷ yn crynhoi'r gwastraff diberygl a pheryglus a gynhyrchir yn ystod cyfnod adeiladu'r prosiect. Mae paragraff 6.5.22 yn yr un ddogfen, fodd bynnag, yn nodi, er y cynhyrchir silt wrth ddatblygu'r system ddraenio, nad ydynt yn gwybod beth fydd cyfaint y silt a gynhyrchir. Mae hwn yn fwllch yn y

⁷ Llyfrgell Archwilio cyfeirnod APP-[093]

data a allai fod yn arwyddocaol, ac mae angen ei lenwi er mwyn gallu cynnal asesiad llawn o'r effeithiau yn ystod y cyfnod adeiladu.

Cyfrifo Cynhwysedd Rheoli Gwastraff

- 1.4.3 Mae tabl C6-1 dogfen C6 a'r Atodiadau ategol (Cyfleusterau Rheoli Gwastraff Lleol a Rhanbarthol a Chyfleusterau Rheoli Gwastraff yng Ngogledd Cymru⁸) yn canfod y cynhwysedd presennol ar gyfer rheoli gwastraff yng Ngogledd Cymru gan ddefnyddio data gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ac yn sôn am gyhoeddi trwyddedau amgylcheddol. Mae CSYM o'r farn bod hwn yn ddull diffygiol i ganfod y cynhwysedd gan fod trwyddedau, yn wahanol i ganiatâd cynllunio, yn cael eu rhoi gan ddefnyddio system 'bandio' h.y. hyd at 4,999 tonn; hyd at 24,999 tonn ac ati, a bod caniatâd cynllunio'n cael ei roi ar gyfer symiau penodol o wastraff. Mae defnyddio trwyddedau i nodi'r lefelau cynhwysedd yn creu risg o or-ddweud y cynhwyseddau (a rhoi amcangyfrif rhy isel o'r effeithiau cyfatebol yn yr asesiad o'r effaith amgylcheddol). Yn y cyd-destun hwn, mae methu â defnyddio caniatâd cynllunio sy'n bodoli i ganfod cynhwysedd rheoli gwastraff i ddilysu'r trwyddedau'n fwch arwyddocaol yn y data.
- 1.4.4 Ystyrir hefyd, wrth ganfod y cynhwysedd presennol ar gyfer rheoli gwastraff, y dibynnwyd ar wybodaeth sy'n hen neu'n anghywir, a bod hyn wedi creu bylchau sylweddol yn yr adroddiadau am lefelau cynhwysedd gwaelodlin. Er enghraifft, yn yr Atodiad C6-1 Cyfleusterau Rheoli Gwastraff Lleol a Rhanbarthol a Chyfleusterau Rheoli Gwastraff yng Ngogledd Cymru, cyfeirir at x1 cyfleuster treulio anaerobig a x2 gyfleuster compostio caeedig. Fodd bynnag, mae Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff Gogledd Cymru (Ebrill 2016) yn nodi bod dau gyfleuster treulio anaerobig wedi'u datblygu yng Ngogledd Cymru; un yn Sir Ddinbych a'r llall yng Ngwynedd. Mae Atodiad C6-1 yn sôn am y cyfleuster yng Ngwynedd, ond nid oes sôn am y cyfleuster yn Sir Ddinbych; yn ôl Adroddiad Monitro Ebrill 2016, mae gan hwn y cynhwysedd i dderbyn hyd at 22,000 tonn y flwyddyn o wastraff bwyd. Mae cyfleuster treulio anaerobig arall ym Mona ar Ynys Môn sydd â chynhwysedd o 49,500 tonn y flwyddyn. Mae hwn yn derbyn gwastraff llaeth a gwastraff cyw iâr yn bennaf, ond gallai dderbyn gwastraff bwyd arall gan ddibynnu ar y cynhwysedd sydd ar gael.
- 1.4.5 Hefyd, yn ôl Atodiad C6-1 (cyfeiriad 6.3.30 ES Cyfrol C Effeithiau'r Prosiect Cyfan APP C6-1), mae'r cynhwysedd yng Ngwynedd ac Ynys Môn wedi'i restru ar gyfer safleoedd tirlenwi i wastraff diberygl (nid oes cynhwysedd tirlenwi i wastraff peryglus). Ar wahân i hyn, mae'r cyfeiriadau a restrir (Tirlenwi Ffridd Rasmus a Thirlenwi Llwyn Isaf) ychydig yn hen. Mae Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff Gogledd Cymru (Ebrill 2016) yn nodi nad oes gan Ffridd Rasmus ddim gwagle a ganiateir mwyach ac nid yw Llwyn Isaf wedi'i restru o gwbl. Mae'r un ddogfen yna'n rhestru tri safle tirlenwi arall i wastraff diberygl ledled Gogledd Cymru, nad ydynt wedi'u hystyried yn nogfen Horizon h.y. Bryn Posteg (Powys); Hafod (Wrecsam); a Llanddulas (Conwy). Mae angen cyfeirio at drwyddedau a hefyd at ganiatâd cynllunio er mwyn gwerthuso cynhwysedd safle.
- 1.4.6 Mae pwynt olaf ynglŷn â chyfrifo cynhwysedd rheoli gwastraff yn ymwneud â'r angen i ganfod y cynhwysedd sydd ar gael – yn gyffredinol, nid yw'r dogfennau'n llwyddo i

⁸ Llyfrgell Archwilio cyfeirnod APP-[117]

gyflawni hyn. Mae'r bennod yn yr asesiad o'r effaith amgylcheddol a'r atodiadau cysylltiedig yn edrych ar y cynhwysedd a ganiateir, ond nid ydynt yn cadarnhau faint o'r cynhwysedd hwn sydd ar gael, faint a ddefnyddir ar bob un o'r safleoedd hyn na faint o le sydd ganddynt i dderbyn rhagor o wastraff. Mae hyn yn fwelch yn y data a hefyd yn ddiffyg sylfaenol yn yr asesiad o'r cynhwysedd sydd ar gael i ymdopi â'r gwastraff a gynhyrchir.

Asesu'r Effeithiau

- 1.4.7 Ceir bwelch pellach mewn gwybodaeth o ran asesu'r effeithiau; er bod effeithiau datgomisiynu'r datblygiadau cysylltiedig ar reoli gwastraff a defnyddiau wedi'u cynnwys (tudalen 36 ymlaen yn nogfen C6), ni chynhwysir effeithiau o'r fath mewn perthynas â datgomisiynu'r brif Orsaf Bŵer.
- 1.4.8 Mae paragraff 16.1.5 dogfen B16⁹ yn nodi 'Nid oes asesiad o gynwyseddau'r cyfleusterau rheoli gwastraff i dderbyn defnyddiau gwastraff yn ystod y cyfnod datgomisiynu wedi'i gynnwys yn yr asesiad a gyflwynir ym Mhennod C6, a gwneid hynny ar yr adeg briodol'. Ategir hyn ym mharagraff 6.4.27 pennod C6.
- 1.4.9 Nid yw'n glir pam na chynhaliwyd y rhan hon o'r asesiad.

1.5 Rhwymedigaethau a Gofynion DCO

- 1.5.1 Am y rhesymau a amlinellir uchod, nid oes digon o eglurder na sicrwydd ynglŷn ag effeithiau posibl cynigion Horizon sy'n gysylltiedig â GST a gwastraff MaD yn ystod pob cyfnod yn y prosiect arfaethedig.
- 1.5.2 Bydd angen i CSYM gydweithio â Gwasanaeth Cynllunio Gwastraff a Mwynau Gogledd Cymru i fonitro'r datblygiadau sy'n gysylltiedig â Wylfa Newydd sy'n cynhyrchu GST a/neu wastraff masnachol a diwydiannol. Felly, mae CSYM yn gofyn am ofyniad DCO bod Horizon yn datblygu strategaeth monitro a lliniaru cyn dechrau ar y datblygiad. Dylent sefydlu'r monitro hwn, gan gynnwys pwynt sbarduno mesurau lliniaru a/neu gydbwysu os rhoddir baich materol ar y seilwaith rheoli gwastraff sy'n bodoli yng Ngogledd Cymru. Dylai ariannu'r gwasanaeth monitro, ac unrhyw fesurau lliniaru/cydbwysu o ganlyniad iddo, fod yn destun Ymrwymiad DCO.

1.6 Crynodeb

- 1.6.1 Nid yw CSYM yn cytuno ag asesiad Horizon o'r effeithiau; maent o'r farn bod yr effeithiau'n fwy nag a awgrymir yn yr asesiad.
- 1.6.2 Gallai'r datblygiad arfaethedig gael effaith negyddol ar y seilwaith rheoli gwastraff lleol a'i allu i amsugno unrhyw wastraff diberygl neu beryglus a gynhyrchir yn ystod y cyfnodau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu.
- 1.6.3 I asesu graddau'r effaith hon, ystyrir bod angen asesiad mwy cadarn (a chyflawn) o ran rhagweld y gwastraff a gynhyrchir yn y dyfodol, gan gynnwys canfod pa

⁹ Llyfrgell Archwilio cyfeirnod APP-[081]

gynhwysedd sydd ar gael gerllaw (fel y nodir uchod) a chaniatâd nad yw wedi'i sicrhau.

- 1.6.4 Y tu hwnt i'r bylchau / anghywirdebau yn y data a drafodwyd eisoes, ystyrir hefyd bod yr asesiad a gynhaliwyd gan Horizon yn sylfaenol ddiffygiol o ran gwaredu gwastraff peryglus a diberygl oddi ar y safle; mae'n bosibl bod yr effeithiau negyddol yn waeth nag a nodwyd
- 1.6.5 Mae hyn oherwydd bod pob rhan arall o'r asesiad h.y. y rhannau sy'n ymwneud â defnyddio gwastraff a defnyddiau ar y safle; compostio gwastraff oddi ar y safle; treulio anaerobig a chompostio caeedig oddi ar y safle; ac aildefnyddio ac ailgylchu gwastraff oddi ar y safle, i gyd wedi'i chynnal yng nghyd-destun y cynhwysedd oddi mewn i Ogledd Cymru i dderbyn unrhyw wastraff a gynhrychir. Fodd bynnag, mae'r asesiadau sy'n ymwneud â gwaredu gwastraff peryglus a diberygl oddi ar y safle wedi'u cynnal yng nghyd-destun gallu Gogledd-orllewin Lloegr i amsugno'r gwastraff a gynhrychir. Mae hyn yn mynd yn groes i bolisiâu cynllunio Cymru (a'r egwyddor agosatrwydd, sy'n mynnu bod gwastraff yn cael ei reoli mor agos â phosibl at ffynhonnell ei gynhyrchu), a'r canlyniad yw asesiad cyffredinol anghyson o reoli gwastraff a defnyddiau; mae'n gwerthuso un rhan o'r ffrwd wastraff yn erbyn y seilwaith rheoli gwastraff lleol / rhanbarthol, a rhannau eraill yn erbyn dalgylch seilwaith gwastraff llawer mwy (a fydd, oherwydd ei faint a'r cynhwyseddau mawr a ganiateir yn anochel, yn sicr o arwain at adroddiadau o effeithiau sydd 'ddim yn arwyddocaol').
- 1.6.6 Mae'r mater hwn o 'fwrw rhwyd yr asesiad yn rhy eang' yn ddiweddar iawn wedi cael sylw gan yr Arolygiaeth Gynllunio yn yr Adroddiad Cwmpasu a gyflwynwyd mewn perthynas â'r cais DCO am ehangu Maes Awyr Heathrow. Roedd yr asesiad o effeithiau gwastraff adeiladu'n diffinio dalgylch rhanbarthol i'r asesiad h.y. de-ddwyrain Lloegr. Dyma Farn Gwmpasu¹⁰ yr Arolygiaeth Gynllunio am y dull arfaethedig hwn:
- a) *“Ar gyfer y cyfnod adeiladu, asesir adnoddau gwastraff a defnyddiau yn seiliedig ar ffin y Prosiect DCO gan ystyried ardaloedd rhanbarthol y De Ddwyrain a Llundain. **Ni ddylid gwneud y cwmpas gofodol mor eang nes ei fod yn bychanu'r asesiad o'r effeithiau ar y cynhwysedd ar gyfer gwastraff ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.**”*
- 1.6.7 Mae safbwynt yr Arolygiaeth Gynllunio'n ategu safbwynt CSYM, sef y byddai ystyried bod Gogledd-orllewin Lloegr yn rhan o waelodlin y cynhwysedd wrth werthuso effeithiau gwaredu gwastraff a gynhrychir gan brosiect Wylfa Newydd oddi ar y safle yn golygu y byddent yn rhoi amcan rhy isel o unrhyw effeithiau negyddol.

¹⁰ Barn Gwmpasu: Ehangiad Arfaethedig Maes Awyr Heathrow (Trydedd Rhedfa) Cyfeirnod achos TR020003, Mehefin 2018 ([Dolen](#))